# y dinesydd

Mai 1996 PAPUR BRO DINAS CAERDYDD A'R CYLCH Rhif 218

# "GŴYL DDEWI YN CAPETOWN"

## Hanes taith Ann a Gareth Lloyd Jones i Dde Affrica



Llun o Aelwen (ar y dde) a rhai o famau a phlant y Pentref

Erbyn hyn mae nifer o gyn-ddisgyblion Ysgol Glan-taf wedi setlo mewn gwledydd pell. Yn Capetown, lle llwythodd Capten Scott y *Terra Nova* am y tro olaf ar ei daith o Gaerdydd i Begwn y De yn Antarctica, mae Aelwen Michael yn gweithio ym Mhentref SOS y Plant. Pentref yw hwn a sefydlwyd gan yr elusen SOS Kinderdorf International ar gyfer plant sydd wedi colli eu rhieni neu sydd yn ddigartref am resymau eraill. Mae yno ryw 80 o blant, y mwyafrif yn ddu ond rhai yn wyn, sydd wedi dod ar awgrym y llysoedd oherwydd eu cefndir anffodus. Caiff y rhain gartref parhaol mewn grwpiau bychain, teuluol eu natur, i fyny at 8 i bob tŷ, bechgyn a merched o wahanol oedrannau, o dan ofal "mam"; mae Aelwen yn un o'r "mamau" sy'n cynnig i'r plant y gofal cariadus a'r ymdeimlad o ddiogelwch sy'n hanfodol i dyfiant iachus. Ar ôl sicrhau y byddai hyn yn dderbyniol i staff y Pentref, penderfynson gyplysu gwyliau yn Ne Affrica gyda chyfnod o dair wythnos o wasanaeth yn y Pentref.

Gan y byddem yno ar draws Gŵyl Ddewi awgrymwyd gan Aelwen y dylid cynnal noson Gymreig. Gyda chymorth Mr Andrew Bartholomew ac aelodau Cymdeithas Dawnsio Gwerin Caerdydd aethom ati i ddysgu 'Cylch y Cymry' a rhai (>tud. 3)

## Y CYNGOR YN GWNEUD MIL O ADDEWIDION YM MYD TAI'R DDINAS

Mae cadeirydd Cyngor newydd Cyngor Sir Caerdydd, y Cynghorydd Linda Thorne, wedi gwneud darganfyddiad o bwys, sef ei bod yn argyfwng ar y fasnach tai yng Nghymru. Mae nifer o'r siroedd newydd wedi bod yn gwneud datganiadau ynghylch yr hyn y bwriadant ei wneud i wella trefn pethau ym mhob maes, ond yn sgîl yr holl addewidion yma mae nifer wedi gweld na fydd y pwrs yn caniatáu iddynt wneud fawr ddim ond addo. Yn y man (os dilynir y drefn arferol fe ddilynir y "mil o addewidion" gan "fil o esgusodion." Dywed y cadeirydd yr hyn a wyddom eisoes, sef bod tai yn angen dynol sylfaenol. Yna â rhagddi i ddweud mai ar y Toriaid y mae'r bai am nad yw pethau fel y dylen nhw fod. Mae rhai ohonom yn ddigon hen i gofio adeg pan oedd Llafur wrth y llyw, a rhywbeth yn debyg oedd y pethau a gâi eu dweud yr adeg honno hefyd.

## ADDEWIDION FIL

Mae rhestr yr "addewidion fil" yn darllen yn hyfryd. Mae'r Cyngor yn mynd i weithredu fel hyn i wella pethau mewn perthynas â thai'r Cyngor ei hun. I ddechrau, adnewyddu ffenestri a gofalu bod pob ffenestr wedi'i gwydru'n ddwbl. Yn ail, gosod system gwres canolog newydd (yn cael ei rhedeg gan system electronig) yn y tai yma. Yn drydydd, codi'r safonau'n gyffredinol. Mae'n addo hefyd y bydd "systemau mynediad diogel" yn nifer o'r tai, hynny yw, cloeon gwell, rhai nad yw mor hawdd i fwrgleriaid fynd heibio iddynt. Byddai hwn yn gam da i'r ffordd iawn. Gwnaed gwaith tebyg yn stad y Gurnos, Merthyr Tudful yn ddiweddar, a chanlyniad y cloeon gwell fu gostyngiad sylweddol yn nifer y lladradau. A dydy hyn ddim yn costio'n ddrud, chwaith.

## TAFLU GOLEUNI AR BETHAU?

Mae hefyd yn galw am oleuo strydoedd yn well. Dywed nad oes digon o oleuadau ar y rhodfeydd presennol. At hynny mae'n mynd i ofalu am fwy o leoedd parcio diogel. Mae'r *Dinesydd* yn cytuno â'r ddau sylw ac mae'n derbyn bod y cyfan yn darllen yn dda. Rhwydd hynt iddo. Rhaid iddo faddau inni os dywedwn ein bod wedi clywed geiriau tebyg o'r blaen...

## CYMRAEG SATHREDIG

Gyda llaw, gobeithio y bydd ei ffordd o drin tai'n well na'i ffordd o drin yr iaith Gymraeg. Yn y daflen a gefais i, sonnir am: "yng ngolcuni'r cynnydd" a thai fel "angon sylfaenol dyno;l," a "cael eu haffeithio'n ddrwg gan fathiant" ac ati. Ac mae ambell gymal fel "i drafod anghenion tai brys a chynyddol pobl Caerdydd" yn ddryswch llwyr i mi.
Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau ynghylch y polisi tai, cysylltwch â Jacqui Bowen ar 01222 871225.

W. J. Jones

# Y Dinesydd

**Mai 1996, Rhif 218.** **ISSN 1362-7546**
Cyhoeddir *Y Dinesydd* gan Bwyllgor *Y Dinesydd*.
Fe'i cysodir gan PPS, Ystum Taf, Caerdydd, a'i argraffu gan Wasg Morgannwg, Mynachlog Nedd.

**Anfonwch ddefnydd ar gyfer rhifyn Mehefin at un o'r canlynol erbyn 22 Mai:**
Mr W. J. Jones, 46 Heol Crystalwood, Caerdydd (Ffôn: 756282, Ffacs: 578106): Newyddion Cyffredinol.
Mr Garwyn Davies, 27 Baron Road, Penarth (Ffôn: 708253): Newyddion y Fro.
Mr B. D. Harries, 6 Lakeside, Caerdydd (Ffôn: 756562): Newyddion Byd Addysg Gynradd.
Mr Thomas Davies, 41 Highfields, Caerdydd (Ffôn/Ffacs: 564540): Newyddion Chwaraeon.
Y Parchedig Gwilym E. Davies, 4 Coryton Rise, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd (Ffôn: 626811): Newyddion o'r Eglwysi.
Ms Gill Stephen, Coleg Glan Hafren, 27 The Parade, Caerdydd (Ffôn: 481280 est. 236): Gweithgareddau Dysgwyr.
**Anfonwch unrhyw sylwadau am ddosbarthu at:**
Mr Alun Ceri Jones, Surrexit, 2 Merthyr Road, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF4 1DG. Ffôn: 01222 529888.

## HYSBYSEBION

Mae'r *Dinesydd* yn ffordd ddelfrydol o hysbysebu ac mae hysbysebion yn hanfodol i gynnal y papur. Dylai pawb sydd am hysbysebu gysylltu â:
Miss Catrin Rowlands, 42 Carling Court, Croes Cwrlwys, Caerdydd CF5 4PH (Ffôn: 01222 598243).

## DIOLCH AM GYFRANIAD ARIANNOL

Diolch i Gymdeithas Gymraeg Dinas Powys (£25), Cymdeithas Tŷ'r Cymry (£15), Sefydliad Prydeinig y Galon (£10) a Chymdeithas yr Iaith Gymraeg (£20) am eu rhoddion hael at goffrau'r *Dinesydd*. Mae ein trysorydd, Mr Aled Williams, Rhos-y-grug, 89 Pen-twyn, Radur, Caerdydd (Ffôn: 844483) yn croesawu unrhyw gyfraniad bob amser. Cofiwch fod *Y Dinesydd* yn dibynnu'n llwyr ar gyfraniadau'r rhai sy'n ei ddarllen.


Cydnabyddir cefnogaeth Bwrdd yr Iaith Gymraeg i'r cyhoeddiad hwn.

## Calendr y Dinesydd

**17-18 Mai**
Theatr Bara Caws yn cyflwyno drama newydd Wil Sam, 'Llifeiriau', yn Chapter am 8.00 p.m. Ffôn: 01222-399666.
**20 Mai**
Cymdeithas Gymraeg Rhiwbina: Cyfarfod Blynyddol, ac anerchiad gan Eleri Morgan, yn festri capel Bethany, Heol Llanisien Fach, am 7.30 p.m.
**22 Mai**
Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol *y Dinesydd* yn Ysgol Glan-taf (Uchaf), Ystum-taf, am 7.30 p.m. Croeso cynnes i BAWB.
**25 Mai**
Corâl Cymry Llundain (Arweinydd: Kenneth Bowen) yn canu gweithiau gan Fouré, Rütter a Mathias, ynghyd ag anthemau Cymreig, yn Eglwys Gadeiriol Llandaf am 7.30 p.m. Tocynnau wrth y drws.
**3 Mehefin**
Cymdeithas Gymraeg Rhiwbina: Gwibdaith. Manylion gan yr Ysgrifennydd (01222-620487).
**1 Gorffennaf**
Cymdeithas Gymraeg Rhiwbina: Swper Pentymor. Siaradwr: Havard Gregory. Manylion gan yr Ysgrifennydd (01222-620487).
**15-18 Gorffennaf**
Cyfarfodydd Blynyddol Undeb Bedyddwyr Cymru, yn adeiladau Athrofa Prifysgol Cymru, Colchester Avenue, Caerdydd
*Os ydych am gynnwys digwyddiadau yn y Calendr, anfonwch y manylion at: E. Wyn James, 16 Kelston Rd., Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF4 2AJ.*

## CROESAIR AP LEWSYN

**Rhif 150** **Mai 1996**



**AR DRAWS**
1. Tipyn o anhwylder yn ystod rihyrsal drama. (6)
5. Trefniant sacramentaidd. (8)
9. Yrwan. (2,3,1,4)
10. Dan hwn y mae'r peth yn cael ei ystyried. (4)
11. Triniwr y gwellaif. (8)
12. Y planhigyn pêr, i'w roi ymhlith y lliain main gynt. (6)
13. Yn addas, mewn argyfwng, dyma nod y cloc. (4)
15. Pentre ger Llantrisant. (8)
18. Rhai felly yw'r baglorion. (8)
19. I ddoe y gall hwn fod yn perthyn. (4)
21. Nid oes modd ei osgoi. (6)
23. Wrth ostwng ei leferydd creodd lais o hedd. (8)
25. Ateb negyddol sydd i'r cwestiwn. (4)
26. Cynhyrchwyr Macon a Medoc a Moselle. (10)
27. Wedi ennill y bleidlais. (8)
28. Yn fwy gwerthfawr. (6)

**I LAWR**
2. Afon y grawn? (5)
3. Crynodd Dei yn y tymhestloedd. (9)
4. "Curwch ac fe ...................... ichwi." (6)
5. Llinach y gair o Roeg yn trefnu ffordd wahanol o edrych ar bethau. (3,4,1,7)
6. Ofni dadl fywiog, a chwithau am ddadluddedu. (8)
7. Drws fel hyn sydd gan eich cymydog agos. (5)
8. Y fath siâp oedd ar y ddaear yn nechrau'r creu. (9)
14. Myfyrdod ar ystyr bywyd a'i werth, fel a gafwyd gan ddoethion yr oesoedd. (9)
16. Tre'r Bannau. (9)
17. Byddid yn bwrw golwg i farnu'r cynnwys. (8)
20. Gwybydded. (6)
22. Dewch, Lois, i wrando'r stori hen, gynhyrfus. (5)
24. Hwn yn dilyn. (5)

**Cystadleuaeth Rhif 149**
Y tro hwn, dim ond chwe ymgais a ddaeth i law, a hynny yn ddiau, am fod y dyddiad cau gosodedig mor fuan ar ôl ymddangosiad *Y Dinesydd*. Gwybydded y caredigion nad ydym yn glynu'n gaeth at y dyddiad, ac fe roddir ystyriaeth i bob ymgais a ddaw i law cyn i ddeunydd y croesair canlynol fynd i ddwylo'r golygyddion.

O'r chwech, yr oedd gwall bychan yn meflu pedair ohonynt, ac o'r ddwy ymgais arall, yr enw a dynnwyd ar hap oedd Marged Davies, 5 Rookwood Avenue, Llandaf. Felly, hi a gaiff y tocyn llyfrau y tro hwn. Eiddo Gwenda Hopkins, Llanisien, oedd yr ymgais gywir arall.

**Cystadleuaeth Rhif 150**
Enw a chyfeiriad ar ymyl y croesair i'w hanfon at: Ap Lewsyn, 13 Rannock Drive, Cyncoed, erbyn 25 Mai os gwelwch yn dda.




## AWDURON A'U CYNNYRCH

Ddechrau mis Ebrill trefnodd Gwasg Prifysgol Cymru gyfarfod i ddathlu cyhoeddi llyfrau newydd a gyhoeddwyd yn ddiweddar. Yn siop lyfrau Oriel yn y ddinas y bu'r cyfarfod, a Llywydd y noson oedd Mr Ned Thomas, Cyfarwyddwr y Wasg. Roedd yn dda gweld bod tri o awduron amlwg y ddinas ymhlith yr enwau - Dr Sioned Davies am ei llyfr campus, *Crefft y Cyfarwydd*, llyfr sy'n dadansoddi dull adroddwyr straeon y Mabinogion o arfer eu crefft; Dr John Gwynfor Jones am ei lyfr *Law, Order and Government in Caernarfonshire*, llyfr sy'n rhoi cipolwg i ni ar Oes y Tuduriaid yn Arfon; a'r Dr Peter Wynn Thomas am *Gramadeg y Gymraeg*, clamp o waith y bydd troi mynych ar ei dudalennau.

**CYFARFOD BLYNYDDOL .**
**Y DINESYDD**
**nos Fercher,**
**22 MAI, am 7.30 p.m.**

**Ysgol Glan-taf Uchaf,**
**Ystum Taf.**

**Dewch i gefnogi'ch papur bro.**

> dawnsiau syml eraill a gynhwysir yn y pecyn i ddechreuwyr a gyhoeddir gan Gyd-Bwyllgor Addysg Cymru. Dysgwyd 4 neu 5 o'r dawnsiau ymlaen llaw gan Aelwen a ninnau i ddyrnaid o blant a fedrai fod yn arweinwyr, a hyfforddwyd côr bychan hefyd i arwain "Ar hyd y nos", "Mi welais Jac-y-do", ac "Oes gafr eto?" Saesneg, Affrikaans a Xhosa yw prif ieithoedd y Pentref, ond cafodd y Gymraeg y flaenoriaeth am un noson. Ar ben hyn paratowyd cawl cennin (gan ddefnyddio cig Halal er mwyn un teulu Mwslimaidd), a digon o fara brith a phice bach ar y maen ar gyfer cant o bobl. Cliriwyd pob tamaid o'r bwyd, a chafodd y caneuon dderbyniad gwresog hefyd, ond enillwyd y noson gan y dawnsiau. Mawr oedd yr hwyl, a hyd yn oed rai o'r plant ieuengaf yn ymateb yn dda, gan sgipio a throelli yn ôl y galw. Gadawyd y tapiau a'r cyfarwyddiadau yno; hyderwn y caiff y dawnsiau Cymreig le ym mywyd y Pentref o hyn allan. Nid oes piano na keyboard electronig yn y Pentref ar hyn o bryd. Oes gobaith iddynt dderbyn keyboard o Gymru? Os oes gennych awgrym, a wnewch chi gysylltu ag Ann neu Gareth Lloyd Jones, Caerdydd 561426?




## AR EICH BEIC

Dros y blynyddoedd mae Sefydliad Prydeinig y Galon wedi gwneud cyfraniad gwerthfawr iawn i waith ymchwil ar glefyd y galon, ac mae eu cyfraniad i Ysbyty'r Brifysgol yn y Mynydd Bychan yma yng Nghaerdydd yn arbennig iawn. Y llynedd, er enghraifft, cynorthwywyd yr ysbyty i brynu camera Gamma gwerth £150,000, sy'n galluogi meddygon i adnabod problemau cleifion CYN iddyn nhw gael trawiad ar y galon. Yn y gorffennol hefyd mae'r Sefydliad wedi helpu prynu sganiwr i'r galon gwerth £95,000.

Eleni bydd taith gerdded noddedig 25 milltir i gychwyn neu i orffen yng Nghaerdydd neu Gasnewydd. Os hoffech chi gymryd rhan, ffoniwch Gaerdydd 732049 i gael ffurflen gofrestru. Bydd y daith gerdded ar 7 Gorffennaf.

Mae galw am gefnogwyr bob amser. Felly, os hoffech chi roi help llaw, dewch i'r Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol yn y neuadd hamdden yn Ysbyty Rookwood nos Fawrth, 21 Mai, am 7.00pm i glywed arbenigwyr yn sôn am eu gwaith, neu mae croeso i chi ffonio Anne Innes, Caerdydd 616230.

## LANSIO TŶ BWYTA ICONS

Ddechrau Ebrill, cynhaliodd Amgueddfa Genedlaethol Cymru ddiwrnod agored i lansio'r tŷ bwyta newydd (Tŷ Bwyta Icons) a agorwyd yn ddiweddar. Adeilad newydd ar lawr isaf yr Amgueddfa yw hwn, ac fel y brif neuadd, mae ar agor i'r cyhoedd unrhyw adeg. Yr amcan yw paratoi prydau blasus a darparu lle am gyfarfod a chlonc. Cewch yno unrhyw beth o giniawau busnes a chyfleusterau corfforaethol i brydau cymysg a gwahanol i blant. Lansiwyd y fenter yn ffurfiol gan y gantores opera enwog, Rebecca Evans. A dilyn geiriad y daflen wybodaeth: "Cewch gyfle yno i fwynhau orig mewn ystafell hardd wedi ei haddurno â theils mosaig arbennig sy'n dangos iconau'r Amgueddfa."


O'r chwith: Andrew Caunter, rheolwr y bwyty; Colin Ford, Cyfarwyddwr yr Amgueddfa; Rebecca Evans, seren o'r byd opera

## LLONGYFARCHION

I'r Dr Deri Thomas ar ei ddyrchafu'n Athro yn Adran Biocemeg Prifysgol Cymru Bangor. Mab David a Heulwen Thomas, Llandaf, yw Deri a chafodd ei addysg gynnar yn Ysgol Gymraeg Bryn-taf.

I Gwyn, mab y Parchedig a Mrs Dewi Morris, Trawsfynydd, ar ei ddyweddiad â Kate Morgan o Wlad yr Haf. Athro Ymarfer Corff Ysgol Gyfun Croesyceiliog yw Gwyn, a fe hefyd yw athro presennol y dosbarth cadw'n heini i ddynion sy'n cyfarfod bob nos Lun yn Ysgol Glan-taf.

I Gareth Kiff ar gael ei ethol yn Gadeirydd Cymdeithas yr Iaith Gymraeg - y brodor cyntaf o Gaerdydd i lenwi'r gadair. Teulu di-Gymraeg yw teulu Gareth, ond aeth yntau ati i ddysgu'r iaith ychydig dros bum mlynedd yn ôl yn Nhŷ'r Cymry yn Heol Gordon. Dymunwn yn dda iddo yn y swydd.

## CYMDEITHAS GYMRAEG RHIWBINA

Cafodd Cymdeithas Gymraeg Rhiwbina noson o hwyl a sbri yn yr Eisteddfod Flynyddol ar ddiwrnod Ffŵl Ebrill - gydag ambell eitem ddifrifol hefyd. Mae dyled y Gymdeithas yn fawr i'r ddau feirniad, Maxwell Evans a John Albert Evans - Morecambe and Wise Cymru, medd llawer! A diolch i Falmai Griffiths am drefnu'r noson.

Synnwyd y ddau feirniad gan agwedd iachus a hwyliog y plant, a safon eu hiaith yn arbennig. A da oedd gweld rhai oedolion parchus yn gwneud ffyliaid go iawn ohonyn nhw eu hunain - o ddawnsio, jyglo a rapio i ddatblygiad newydd i'r byd eisteddfodol, sef tri yn canu deuawd.

Daliwch ati, bobol Rhiwbina! Onid yw'n bryd cael eisteddfod flynyddol i Gaerdydd yn gyfan?

Mair Dyfri a enillodd y Goron gyda pharodi effeithiol iawn ar y gerdd "Melin Tre-fin".

*Marwnad Dunblane*
Nid yw'r plant bach heddiw'n chwarae
  Yn Dunblane, ar fin y stryd.
Aeth yr un deg chwech bach adref
  Yn ddisymwth i well byd.
Ac mae'r gym fu gynt mor swnllyd
  Ac yn atsain drwy y fro
Er pan farw'r hen blant bychain
  Wedi cau, yr olaf dro.

Saif yr ysgol hyfryd eto
  Yn Dunblane, ar gwr y dre.
Ond ddaw neb i ddysgu heddiw,
  Tristwch mawr sy dros y lle.
Lle doi plantos bach yr ardal
  Ddydd i ddydd yn llwythi croch,
Ni cheir nawr ond llu ymwelwyr
  Gyda dagrau ar eu boch.

Segur stafell ydi'r fangre
  Wedi'r storom fawr a fu,
Tawel, trist - fel carreg goffa
  O'r amseroedd difyr fu.
Ond does yma neb yn ddifyr
  Wedi saethu'r plant bach clên,
Dim ond galar mawr ac wylo,
  Wylo fyth fydd yn Dunblane.

Mair Dyfri

## EISTEDDFOD DEWI SANT

Ddiwedd mis Mawrth cynhaliwyd Eisteddfod fawreddog Eglwys Dewi Sant dan ofal y Parchedig Maxwell Evans. Noswaith o adloniant heb ei hail! Cawsom ein difyrru gan aelodau'r eglwys am ddwy awr, y plant a'r oedolion yn cystadlu'n frwd ac yn perfformio'n ddisglair. Does dim angen i chi fynd i'r West End i weld 'musical' - dewch i Neuadd Eglwys Dewi Sant a chewch weld rhywbeth na welwch yn y West End - ambell esgob yn canu ac yn perfformio ar lwyfan, yn gwneud cystal â'r llanc hwnnw o Bontypridd.

Diolch i bawb a fentrodd i'r llwyfan, a diolch i'r beirniaid am fod mor smala ac amyneddgar. Diolch i'r Parchedig Maxwell Evans am eu cadw mewn trefn ac i'r Ficer, y Parchedig Aled Edwards, a phawb am eu cefnogaeth.

## CYMRODORION CAERDYDD




Ers blynyddoedd bellach, mae Cymrodorion Caerdydd a'r Barri wedi bod yn ymweld â'i gilydd, ac eleni tro Caerdydd oedd mynd i'r Barri. Cafwyd noson o adloniant amrywiol wedi ei pharatoi gan Gymrodorion Caerdydd, ac yna ymunodd y ddwy gymdeithas o amgylch y byrddau. Braf oedd cael adnewyddu cymdeithas, a diolch i bawb am wneud y noson yn llwyddiant.

## SS HIRAETH AR EI THAITH O GWMPAS Y BYD - Pennod arall gan Alan Greedy

Bu'n rhaid i mi aros yn Lisbon am gyfnod, ac er nad wy'n siŵr mai hon yw dinas harddaf Ewrop, treuliais oriau difyr yn darllen yn ei Llyfrgell Genedlaethol. Roedd y tywydd yn dawel ar y daith i Tenerife ym mis Rhagfyr, ond cododd yn storm a bu bron i mi golli'r peilot gwynt. Treuliais dair awr yn ymladd â'r elfennau yn ceisio'i godi o'r dŵr, a *Hiraeth* yn rhuthro yn ei blaen fel march gwyllt. Ond daeth tawelwch gyda'r wawr.

Roeddwn yn disgwyl fy nheulu i dreulio'r Nadolig gyda mi ar y cwch, a golchais y dillad gwely a'r hwyliau a'u gadael i sychu yn yr haul. Ac i ffwrdd â mi i'r farchnad. Ond pan ddychwelais, roedd haenen ddu fel huddugl dros bopeth: roedd dyn gerllaw o Gorea wedi bod yn gwneud paent a'r gwynt wedi ei chwythu i bob cyfeiriad. Ond chwarae teg i'r Coreaid, roedden nhw'n sylweddoli fy mhenbleth, a glanhawyd y llong a phopeth arni nes oedd hi'n edrych fel pin mewn papur.



Atgyweirio llyw *Hiraeth* yn Darwin, Awstralia

Yn Tenerife, prynais fatri newydd i *Hiraeth* gan aelod o griw llong o'r Almaen, ond ar ôl cymryd fy arian, cipiodd y batri yn ôl a diflannodd o'r ynys. Ymlaen â fi, felly, i Ynys Gomera gerllaw, ac wrth gerdded ar hyd stryd gefn dyma fi'n gweld dyn ifanc yn eistedd ar y palmant ac arwydd yn Sbaeneg ar ei frest: 'Helpwch ddyn dall tlawd, os gwelwch yn dda.' Pan oeddwn ar fin rhoi arian yn ei flwch, sylweddolais mai'r llongwr a oedd wedi dwyn fy matri oedd hwn, er gwaethaf y sbectol haul. Dywedais wrtho y byddwn yn ysgrifennu i ddweud wrth ei rieni, ond erfyniodd arnaf i beidio â gwneud hynny. Roedd yn amlwg fod ganddo ddigon o broblemau eisoes! Ac ymlaen â mi heb yr arian na'r batri i ynys Hierro, cyn gadael i groesi'r môr i Barbados.

# Newyddion o'r Eglwysi... dan ofal Gwilym Dafydd

## BETHEL, RHIWBINA

Llongyfarchiadau i dair o enethod Bethel am eu llwyddiant yn Eisteddfod Sir yr Urdd, sef Gwenllian Elfyn (deuawd); Lowri Siân Hughes (canu penillion) a Siân Elen Williams (adrodd). Pob llwyddiant i'r tair yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd ym Mro Maelor.

Cafodd un ar ddeg o blant Ysgol Sul Bethel eu canmol am gasglu cant a thrigain o bunnau at y Genhadaeth Dramor. Cyflwynwyd y tystysgrifau a'r bathodynnau pan gynhaliwyd Cymanfa Cylchdaith Morgannwg yng Nghapel Llwynyronnen sydd yng nghysgod Castell Carreg Cennen.

Braf oedd gweld y capel ym Maesyderi bron yn llawn yn ystod gwasanaeth Sul y Mamau. Gwledd i'r llygaid oedd gweld rhes hir o blant yn dweud eu hadnodau.


## O'R TABERNACL

Un o ddyletswyddau cyntaf y Parchedig Denzil John ar ôl iddo ddychwelyd o Nicaragua oedd estyn gair o groeso i'r gynulleidfa a ddaeth ynghyd nos 12 Mawrth i wrando ar Gôr y Tabernacl yn cyflwyno Requiem Faure ac eitemau amrywiol gan artistiaid eraill. Mewn noson a oedd dan nawdd Cymdeithas Nos Fawrth y Tabernacl yr unawdwyr oedd dau o blant y ddinas, Iona a Paul Jones. Cyflwynwyd 'Salm y Genedl' (Jennie Eirian Davies) gan barti cyd-adrodd y Tabernacl wedi ei hyfforddi gan Eirwen Davies a chyda dathliadau Gŵyl Ddewi yn dal yn fyw yn y cof parhawyd â'r thema amserol wrth i Nia Samuel ddarllen 'Buchedd Garmon' (Saunders Lewis). Cyfeilyddion y noson oedd Marc Jon (organ), Huw Thomas (piano/organ) a Siân Thomas (telyn). Yr arweinydd oedd Euros Rhys Evans a fu wrthi'n ddiwyd ac yn amyneddgar ers y flwyddyn newydd yn hyfforddi cantorion y "Tab".

## COFIO'R GROGLITH

Unwaith y flwyddyn fe ddaw addoldai'r ddinas at ei gilydd. Yr achlysur yw gwasanaeth Gwener y Groglith, gwasanaeth i gofio un o ddyddiadau mwyaf y calendr eglwysig. Cynhaliwyd y gwasanaeth hwnnw eleni yn Eglwys Dewi Sant. Cymerwyd rhan gan aelodau o'r holl eglwysi, a phregethwyd yn rymus ar y gair "Gorffennwyd" gan y Parchedig Pamela Cram o Fethel, Maesyderi, Rhiwbina. Cymerwyd y rhannau arweiniol gan y Ficer, y Parchedig Aled Edwards.

## PWYLLGOR ENFYS CAERDYDD A'R CYLCH




Cynhelir Gwasanaeth Cymun Bendigaid yng nghapel Bethel, Maesyderi, Rhiwbina, yn ôl trefn Eglwysi Cyfamodol ENFYS brynhawn Sul y Cyfamod, sef 9 Mehefin am 3.00 p.m. Gwasanaethir gan y Parch. Pamela Cram gyda chymorth gweinidogion o'r eglwysi eraill a bydd anerchiad gan y Parch. Dafydd Owen.

Bydd croeso cynnes i weinidogion ac aelodau holl eglwysi Cymraeg Caerdydd, Penarth a'r cylch i ddod atom i gyd-addoli a derbyn y Cymun drwy y Drefn Gyfamodol. Dewch atom i ddangos yr ewyllys dda o gydnabod ein gilydd a'r awydd sydd ynom i uno yn un Eglwys fawr yng Nghrist.

## TREM YN ÔL

Fe fu Eos Ebrill (Rees Lewis) yn arweinydd y gân yn Eglwys y Tabernacl am 30 o flynyddoedd. Roedd yn enwog yng Nghaerdydd y ganrif ddiwethaf am arwain gweithiau'r meistri ar raddfa eang. Yng Ngorffennaf 1863 roedd yn arwain *'Israel in Egypt'* (Handel) yn y Music Hall (apel Wood Street wedi hynny). Flwyddyn yn ddiweddarach, roedd yn arwain *'Creadigaeth'* (Haydn). Roedd tua dau gant o bobl yn ei gôr. Fe fu'n arwain cerddorfa am flynyddoedd, gyda rhai o bobl bwysig y dref yn perthyn iddi. Bu farw yn Rhagfyr 1880 yn 52 oed. Mae nifer wedi teimlo'n drist na chodwyd erioed gofgolofn deilwng i wr a gyfrannodd gymaint at fywyd cerddorol Caerdydd.


**I SYLW CYN-DDISGYBLION A CHYN ATHRAWON YSGOL RAMADEG YSTALYFERA SEFYDLWYD 1896**

**CINIO DATHLU CANMLWYDDIANT**

Nos Sadwrn 21 Medi, 1996
am 7.30 o'r gloch
PRIFYSGOL CYMRU ABERTAWE
Manylion: Ffoniwch- John Rees 01222 482922
Douglas Roberts 01639 842447
John Evans 01792 842853
*'Nid da lle gellir gwell'*

# NEWYDDION YR URDD


## TRIP YR URDD I STOREY ARMS - PASG '96

Yn ddiweddar trefnwyd trip gan yr Urdd yn Ne Morgannwg ar gyferdisgyblion blynyddoedd 7 ac 8 Glantaf i Storey Arms. Mae'r ganolfan awyr-agored wedi ryw 60 kilometr o Gaerdydd yng nghanol harddwch a phrydferthwch un o ardaloedd tlysa Cymru, sef Bannau Brycheiniog. Aeth 25 o ddisgyblion Glan-taf i'r ganolfan gan gymryd rhan mewn amryw o weithgareddau cyffrous gan gynnwys canwio, mynydda, dringo creigiau, ogofa a chyfeiriadu. Dyma lun o ferched blwyddyn 8 yn cymryd hoe yn ystod gweithgareddau dydd Sadwrn.



Storey Arms - Merched Bl. 8 Glan-taf

## CWIS YNG NGHLWB Y BBC




Mae Cwis a Disgo wedi eu trefnu yn Nghlwb y BBC nos Iau, 23 Mai yn dechrau am 7.30p.m. Bar hwyr tan 12.00a.m. Holwr: Ieuan Rhys. Tâl mynediad: £2. Bydd yr elw yn mynd tuag at darged yr Urdd. Hoffwn ddiolch i dimau Alfresco, S4C, Apollo, HTV, Staff Glan-taf, Tim y Duke, Tîm yr Urdd, Staff Ysgol Casnewydd ac amryw o dimau eraill am eu cefnogaeth i'r cwis diwethaf.

## CLWB CRICED YR URDD

Bydd Clwb Criced yr Urdd yn ailddechrau nos Iau, 9 Mai ar Gaeau Llandaf rhwng 5.15pm - 6.15 pm. Mae'r clwb wedi ei drefnu ar gyfer disgyblion blynyddoedd 3, 4, 5 a 6 Ysgolion Cynradd Cymraeg y Sir - Croeso i bawb. Cost £1.

## HELFA DRYSOR

Cynhelir Helfa Drysor brynhawn Sadwrn 15 Mehefin. Bydd y daith yn dechrau o Ganolfan yr Urdd am 2.00p.m. ac yn Mharc Cosmeston lle y bydd barbaciw. Bydd yr helfa yn addas i deuluoedd - hynny yw, bydd y cwestiynau'n rhai syml!

## YSGOL BÊL-DROED PASG YR URDD

Yn ystod gwyliau'r Pasg trefnwyd am y tro cyntaf gan yr Urdd yn Ne Morgannwg Ysgol Bêl-droed 'Iau' yr Urdd. Mae'r Urdd yn barod wedi trefnu ac yn dal i drefnu Ysgolion Pêl-droed ar gyfer yr oedrannau hŷn, ond dyma'r tro cyntaf inni drefnu Ysgol Bêl-droed ar gyfer bechgyn blynyddoedd 1 a 2 ysgolion cynradd Cymraeg y sir. Cafwyd ymateb da iawn a bore llwyddiannus.

Mae Gary Lewis (FA CYMRU) - Prif Hyfforddwr Pêl-droed yr Urdd o'r farn 'ei bod yn bwysig datblygu sgiliau pêl-droed sylfaenol i blant tra eu bod yn ifanc'.

Mae'r Urdd yn rhedeg Clwb Pêl-droed bob bore Sadwrn ar gyfer blynyddoedd 1 a 2 rhwng 9.00a.m. -10.00a.m. ar Gaeau Llandaf, ac yna i fechgyn blynyddoedd 3, 4, 5 a 6 rhwng 10.00 - 11.00a.m.



Ysgol bêl-droed iau yr Urdd

# EIN HYSGOLION CYNRADD CYMRAEG

## DIGWYDDIADAU TYMOR Y GWANWYN YN YSGOL PEN-CAE

Daeth PC Elin Jones o Ben-y-bont ar Ogwr i'r ysgol i siarad â'r plant fesul dosbarth. Yn y llun mae rhai o blant Blwyddyn 1 mewn gwisgoedd heddlu.



Dathlwyd Gŵyl Ddewi gan yr Adran Iau mewn gwasanaeth i rieni yng Nghapel Mair, Eglwys Gadeiriol Llandaf.

NSPCC yw ein helusen nawdd eleni. Daeth Mrs Melissa Emery i siarad â'r plant a chodwyd £900 at yr elusen.

Buom yn gwerthu cennin Pedr yn yr ysgol at Apêl Marie Curie tuag at waith yr hosbis ym Mhenarth. Byddwn yn cael bylbiau yn yr hydref i'w plannu mewn gardd arbennig i gofio gwaith yr elusen.

Ddechrau Mai bydd Mr Huw Smart yn gyrru fan yn llawn bwyd sych, dillad a theganau i gartref plant amddifad yn Croatia. Bu'n siarad â disgyblion yr ysgol i gyd cyn y Pasg, ac ers hynny maen nhw wedi bod wrthi'n llenwi bagiau i'w hanfon o'r ysgol. Dymunwn yn dda i Mr Smart yn yr ymgyrch.

Diolch i Fanc Cymru am ein noddi i brynu dillad i'r tîm pêl-droed. Ac i Gwmni Theatr Canol y Ffordd am roi perfformiad o 'Plentyn Amser' yn neuadd yr ysgol.

Ymwelodd Mrs Didi Morgan (chwaer Mrs Enid Jones Davies, pennaeth cyntaf Ysgol Bryn-taf) â'r ysgol. Cyflwynodd luniau a llyfr log cyntaf Bryn-taf i ni. Mae ei hwyres, Ellie Mai, yn ddisgybl yn Ysgol Pen-cae. Cyflwynwyd y llyfr log a'r lluniau i helpu'r pwyllgor sy'n paratoi dathliadau hanner can mlynedd addysg Gymraeg yn y Brifddinas.



Bu Mr Tetsuo Tomuro, Cadeirydd Ymddiriedolwyr Sefydliad Addysgol Shibuya yn Siapan, yn yr ysgol ddechrau mis Mawrth. Gwelodd y plant yn dathlu Gŵyl Ddewi, yna bu'n ymweld ag Ysgol Rhydfelen.



# YSGOL GLAN-TAF

Soniwyd sawl gwaith ar dudalennau'r *Dinesydd* am lwyddiant arbennig timau rygbi Ysgol Glan-taf eleni, ond daeth tro'r merched hefyd gan i dimau pêl-rwyd a hoci'r ysgol fod yn llwyddiannus iawn yn ddiweddar. Cipiodd tîm pêl-rwyd blwyddyn 7 ddwy gystadleuaeth sef Gornest Ysgolion De Morgannwg a chystadleuaeth i ysgolion uwchradd Cymraeg y De. Bu tîm hoci blwyddyn 8 hefyd yn llwyddiannus yn y gystadleuaeth hon.




**Tîm Pêl-rwyd Blwyddyn 7** *Llun: Robin Griffith*
Angharad Jenkins, Ellie Carey, Manon Jones, Catrin Passmore, Catrin Williams, Hannah Tinnuche, Carys Holland, Fiona Peet, Erin Richards.



**Tîm Hoci Blwyddyn 8** *Llun: Robin Griffith*
Annacita Bowen, Bethan Williams, Bethan Haf Thomas, Elinor Williams, Bethan Price, Hayley Walker, Cerys Jones, Kate Gibbs, Charlotte Davies, Bethan Thomas, Catrin Kemp, Siân Hailes, Siân Clyburn.

## MRS BUDDUG LLOYD




Yn ddiweddar bu farw Mrs Buddug Lloyd ar ôl misoedd o salwch blin a wynebodd â dewrder anghyffredin. Collodd Ysgol Glan-taf athrawes frwd a bywiog a llywodraethwr gweithgar ac ymroddgar. Dyma deyrnged iddi gan Dafydd James, un o ddisgyblion blwyddyn 12:

Anodd gwybod ble i ddechrau. Nid 'yn y dechreuad' y tro hwn, er mai dyma oedd cychwyn nifer i drafodaeth feiddgar yn ei chwmni. Yr oedd, fel pob athrawes dda, yn barod ei hatebion ond efallai yn well na hynny, ei chwestiynau oedd yn cael y sylw blaenaf yn fy ngyrfa academaidd. Cwestiynau oedd yn agor drysau'r meddwl. Cwestiynau oedd yn barod i herio confensiynau crefydd heb dorri ei ffiniau, ac yn sgîl y cwestiynau hyn daeth dysgu yn bleser yn hytrach nag yn fwrn. Roedd ei gwybodaeth a'i brwdfrydedd ynglŷn â'i phwnc yn ymestyn y tu hwnt i gyfrifoldebau arferol yr athro ac yn pontio diddordeb ac ymroddiad. Roedd ei gwên bob amser yn gysur, ac yn darddiad i'r nerth mewnol sydd yn sail i bob cyfeillgarwch.

Yr oedd yna ryw fath o fodlonrwydd bydol yn perthyn iddi o hyd. Yn y cerddediad sionc hwnnw, sydd hyd heddiw yn atgof atseiniol, melys i mi rhwng muriau'r coridorau, yn ei phendantrwydd grymus ac yn ei haddfwynder.

Newidiais fy meddwl, nid anodd gwybod ble i ddechrau wrth ysgrifennu teyrnged iddi. Roedd y dorf a ymddangosodd yng Nghapel y Crwys yn deyrnged ddigonol i'w charedigrwydd tra'n fyw. Yn ei gwersi fe ddysgodd i mi am farwolaeth - am yr hyn sy'n anodd i'w dderbyn ac nad ofer yw bywyd. Yn ei hangladd mi ddysgais ei gwers olaf. Er ei hangau y mae hapusrwydd. Yn ein galar y mae ei gwên. Er mai gwag yw'r coridorau, wedi'r ffarwel, mae ein bywydau o hyd yn llawn ohoni.

Dafydd James

# Y CAMPAU dan ofal Thomas Davies

## RYGBI

### CORONI TYMOR - A CHYFNOD

Roedd dydd Mercher, 3 Ebrill, 1996 yn ddiwrnod nodedig yn hanes Ysgol Glan-taf, ac yn wir, yn hanes Cwpan Ysgolion Cymru. Nid yn unig bu buddugoliaeth i'r timau Rygbi dan 16 a dan 18 yn y rownd derfynol, ond hon oedd y fuddugoliaeth gyntaf i ysgol yn hytrach na choleg trydyddol yn hanes y Cwpan o dan 18.

Enillodd y tîm hŷn o 20 pwynt i 8 yn erbyn Ysgol Gyfun Tregŵyr, ar ôl brwydr galed. Aeth y gwrthwynebwyr ar y blaen o 8 pwynt i ddim ym mhen dim, ond wedi pwysau cyson ar ddechrau'r ail hanner gan Dregŵyr, cawsom gyfle i ledu'r bêl, a chyda symudiad gorau'r gêm sgoriodd Owen Jones gais ar yr asgell chwith a throswyd ef gan Steven Evans. Yna sgoriodd Steven gais a throsi hwnnw. 17-8 a'r gêm bron yn ddiogel cyn i Dafydd Harries gicio gôl adlam i goroni prynhawn i'w gofio.

Cafodd y tîm o dan 16 fuddugoliaeth dda dros Corpus Christi a rhaid llongyfarch ein cymdogion, Ysgol Llanhari, am eu buddugoliaeth hwy yn y gystadleuaeth o dan 14.

Teg yw nodi fod y tîm o dan 18 wedi cwblhau Coron Driphlyg unigryw oherwydd iddynt ennill Cwpan Ysgolion Cymru dan 14, 16 a 18 oed dros eu hamser yn yr ysgol. A chlod i Mr Peter Manning a Mr Ceri Evans am eu hymroddiad a'u dygnwch dros y blynyddoedd.

### CLWB RYGBI CYMRY CYMRAEG CAERDYDD

Ar ddiwedd ein tymor cyntaf yn y gynghrair uchaf, diwedd y gân yw ...rydym yma o hyd, ac er i ni brofi sawl siom, rydym wedi ennill blas ar chwarae'r gorau.

Er i'r gynghrair chwarae rhan bwysig, efo buddugoliaethau clodwiw yn gynnar, Cwpan Rhanbarthau Cymru a roddodd bwrpas i'r tymor. Nid er 1988 ydy'r Clwb wedi medru hawlio lle ymysg gweddill clybiau Cymru, ac eleni aethom gam ymhellach. Wedi buddugoliaethau da yn erbyn Pontyfelin, Yr As (*Nash*) a Phorthmadog daeth yr eira i'n rhwystro. Ar fore diflas ym mis Mawrth collodd y Clwb yn yr 16 olaf - a dyna oedd gwir ddiwedd y tymor. Ar y cae rydym wedi chwarae steil cyffrous traddodiadol y Clwb, gan sgorio mwy o geisiadau na phob clwb arall ond un yn y Gynghrair. Mae Rhidian Lloyd a Steve Wilshaw wedi cynrychioli "Welsh Districts" efo Rhidian yn cynrychioli Cymru yn erbyn Denmarc. Chwaraeodd John Parry Jones a Rhys Lloyd i'r Welsh Academicals yn ddiweddar.

Cafodd yr ail dîm ddechreuad addawol iawn i'r ymgyrch ond yn ystod misoedd cynnar y tymor collwyd amryw o gêmau gan un sgôr neu lai. Bu buddugoliaethau da yn erbyn Pontllanffraith, Dowlais a Rhaglan, a braf yw nodi llwyddiannau'r tymor, yn enwedig chwaraewyr fel Daf Lefi ac Andy Edwards.

Oddi ar y cae, mae'r Clwb wedi gorfod cystadlu yn yr oes broffesiynol. Mae cynlluniau mawr ar waith, a'r sail wedi ei gosod eleni. Cawsom fwy o aelodau nag erioed o'r blaen, a chwaraewyd pob gêm a drefnwyd, sy'n glod i'r chwaraewyr a'r pwyllgor a weithiodd yn ddyfal unwaith eto eleni. Mawr yw'r gobaith am y flwyddyn i ddod ... mae Llanrhymni, Tyllgoed a'r 'Buns' yn ein gadael - ai tro y Clwb ydyw i esgyn i'r brig?

Gareth Hall Williams



Tîm buddugol Glan-taf o dan 18 1996



Rhidian Lloyd yn annog y chwaraewyr yn ystod hanner amser

## PÊL-DROED

### CLWB Y CYMRIC

Braf yw nodi tymor llwyddiannus i ddau dîm Clwb Cymric.

Mae'r tîm cyntaf yn siŵr o orffen yn drydydd eleni yn yr Uwch Gynghrair a llwyddwyd i gyrraedd Rownd Gynderfynol y Cwpan.

I'r ystadegwyr yn eich plith:

CH. 29; E. 18; Cyfartal 5; C. 6.

Llwyddodd unigolion i'w hamlygu eu hunain yn ystod y tymor - Andreas Hughes am sgorio 24 gôl, Huw Tudur yn sgorio 20 a Lloyd Powell, o'r ddinas, yn cynnal safonau uchel yn y gôl.

Profodd yr ail dîm lwyddiant yn ogystal. Ymddengys y byddent yn cael eu dyrchafu eleni o'r bedwaredd adran i'r drydedd, ar ôl ennill 17 o'u 27 gêm, 5 yn gyfartal a cholli 5. Braf oedd nodi cyfraniad ac ymroddiad nifer o chwaraewyr newydd e.e. David Hughes, Iwan Prys, Gwilym Boore a Gethin Mills.

Cynhaliwyd cinio blynyddol y clwb, 10 Mai yng Ngwesty Manor Park, Draenen Pen-y-graig *(Thornhill)*, gydag Ian Gwyn Hughes yn ŵr gwadd i'r noson.

Croesewir hefyd chwaraewyr newydd i'r clwb. Cysylltwch â Dillwyn Owen, 595849, neu Alan Edwards, 225298.

# Dysgwyr y Ddinas

dan ofal Gill Stephen

Shwmae eto!

Ar ôl hir aros mae cyfres o ysgolion undydd ar y gweill yng Nghaerdydd a'r Fro. Fel y gwelwch chi, mae dwy gyda ni yn ystod mis Mehefin.

Dyma'r cyfle i'r sawl sydd yn sefyll arholiad eleni adolygu cyn y diwrnod mawr! Ond peidiwch ag anghofio bydd dosbarthiadau ar gyfer pob safon, o ddechreuwyr hyd siaradwyr rhugl. Bydd creche yna hefyd ar gyfer eich plant tra byddwch yn y gwersi.

Os ydych am wybod mwy am yr ysgolion undydd ffoniwch fi ar Gaerdydd 481280, est. 236.

**GEIRFA**
hir aros - a long wait
ar y gweill - on the way
yn ystod - during
sefyll arholiad - to take an exam
dechreuwyr - beginners
siaradwyr rhugl - fluent speakers
ar gyfer pob safon - for every level




Dyma gystadleuaeth arall gyda'r un thema (on the same theme) â'r mis diwethaf, sef priod-ddulliau (idioms) Cymraeg.
Byddwn yn cyhoeddi enillwyr cystadleuaeth mis Ebrill yn y rhifyn nesaf.

## ☆ CYSTADLEUAETH ☆

Ydych chi'n gwybod (neu ydych chi'n gallu holi eich tiwtor) beth yw

**'Not a snowball's chance in hell!'**

yn Gymraeg? Does dim eisiau cyfieithiad gair am air.

Mae **Cell Caerdydd, Cymdeithas yr Iaith Gymraeg,** yn cynnig crys T neu fyg i'r tri pherson cyntaf gyda'r ateb cywir. Ysgrifennwch ataf nawr dan ofal y Dinesydd gyda'ch atebion.

## JÔC yn y Bocs

Beth mae Dewin yn cael i'w frecwast?
*Creision Hud a lledrith!*

**GEIRFA**
Dewin - Wizard
Hud a lledrith - magic and sorcery
(llefrith = llaeth) Hwyl - fun or a sail

Beth sy'n debyg rhwng plentyn bach ar ei ben ei hun yn ei ystafell wely a dyn ar ynys yng nghanol y môr?
*Y ddau ohonyn nhw'n chwilio am hwyl!*

**Ydy'ch dosbarth chi yn gallu gwneud yn well? Danfonwch eich jôcs ata i nawr!**

**DATRYSIAD CROESAIR MIS EBRILL**



## DYDDIADUR O DDIGWYDDIADAU - DE MORGANNWG A'R FRO

| | |
|---|---|
| **25 Mai 1996** 9.30 - 1.30pm | Ysgol Undydd Canolfan yr Urdd,Heol Conwy, Caerdydd<br>Ffoniwch Christine Franks 513046 |
| **1 Mehefin** | Ysgol Undydd, Canolfan Howardian, Caerdydd<br>Dosbarthiadau ar gyfer pob safon, Crèche<br>Ffoniwch Gill Stephen 01222 481280 est 236 |
| **1 a 2 Mehefin** | Cwrs Adolygu ar gyfer arholiadau Defnyddio'r Gymraeg, Defnyddio'r Gymraeg Uwch a Thystysgrif y Brifysgol.<br>Tŷ Bryn-glas, Casnewydd<br>Ffoniwch Geraint Wilson-Price 01873 855221 |
| **8 Mehefin** 9.45 -1.15pm | Ysgol Undydd Palmerstone<br>Canolfan Palmerstone, Y Barri, Crèche ar gael.<br>Ffoniwch Christine Franks 513046 |
| **15 Mehefin** | Ysgol Undydd,<br>Ysgol Uwchradd Yr Eglwys Newydd, Caerdydd<br>Dosbarthiadau ar gyfer pob safon, Crèche<br>Ffoniwch Gill Stephen 01222 481280 est 236 |
| **Pob nos Iau** yn ystod tymor yr ysgol 9.15pm | Mae nifer o Gymry Cymraeg a dysgwyr yn cwrdd i sgyrsio'n anffurfiol yn lolfa Gwesty Parc y Rhath (Roath Park Hotel) Ffoniwch Pete 763426 |
| **Pob bore Gwener** 9.30 - 11.30am | Clwb Coffi Canolfan yr Urdd, Caerdydd<br>Ffoniwch Christine Franks 513046 |
| **Pob bore Gwener** 9.30 - 11.30am | Clwb Coffi Ysgol Victoria, Penarth<br>Ffoniwch Christine Franks 01222 513046 |
| **Pob dydd Gwener** Amser cinio | Mae nifer o Gymry Cymraeg a dysgwyr yn cwrdd i sgyrsio'n anffurfiol yn lolfa y 'Duke of Wellinton' yn y Bont-faen. |
| **Pob bore Sadwrn** 10.45am | Mae cyfle arall i ymarfer eich Cymraeg dros baned o goffi yn Festri'r Tabernacl, Yr Ais (The Hayes), Caerdydd.<br>Ffoniwch Chris Rees-Woodward 499593 |
| **Pob bore Sadwrn** | Clwb Sadwrn ACEN<br>Ffoniwch 01222 665455 am fanylion pellach |
| **Unwaith y mis** | Clwb Siarad, Canolfan yr Urdd, Caerdydd<br>Ffoniwch Christine Franks 513046 |
| **Yn ôl y galw** | Cymorthfeydd - Y cyfle i ddysgwyr neu diwtoriaid drafod eu problemau gyda gwaith neu gyrsiau.<br>Ffoniwch Gill 481280 est 236<br>(Trefnwyd gan Gonsortiwm De Morgannwg) |

**AM FANYLION PELLACH FFONIWCH GILL STEPHEN - 481280 EST. 236**

## Y daith rydych wedi'i gohirio ers blynyddoedd ...

*Peidiwch ag oedi rhagor:*

PATAGONIA -mae'n fwy na gwlad,
mae'n fwy na breuddwyd -
mae'n brofiad heb ei ail.

Taith 17 Hydref - 5 Tachwedd 1996

Teithiwch, heb ofal yn y byd, gyda threfnwyr sy'n gwybod am y tir, yr hanes, y traddodiadau a'r wlad fel ag y mae heddiw.

Am fanylion, cysylltwch ag Elvey MacDonald,
Gaiman, Ffordd Ddewi, Aberystwyth, Dyfed SY23 1EU.
01970 624766 ar y penwythnosau

## PARTNERIAETH ORCHARD DAVIES

**Gofal cyfeillgar i gwmniau bach ac unigolion**

***Gwasanaethau Ariannol a Chyfrifon***
*(yn cynnwys Hunan Asesiad a chyfrifon personol)*

***Gwasanaethau Busnes***

***Gwasanaethau Cyfrifiadurol***

**Ffoniwch 01222 251011 neu ysgrifennwch :**
**Siambrau'r Bae, Stryd Gorllewin Bute,**
**Bae Caerdydd, CAERDYDD, CF1 6HG.**

Bron-Brawf Cymru

## YDYCH CHI'N WRAIG DROS 50 OED?

MAE BRON-BRAWF CYMRU YN CYNNIG GWASANAETH SGRINIO'R FRON SY'N UNIGRYW AC O SAFON UCHEL AM DDIM I WRAGEDD SY'N 50 NEU'N HYN

*AM FWY O WYBODAETH, FFONIWCH NEU YSGRIFENNWCH AT EICH CANOLFAN SGRINIO'R FRON AGOSAF YNG NGHYMRU*

**CANOLFAN SGRINIO'R FRON - DE CYMRU,**
**18 FFORDD YR EGLWYS GADEIRIOL**
**CAERDYDD. CF1 9LJ**
**Ffôn: 01222 - 397222**

**Canolfan Sgrinio'r Fron - Gorllewin Cymru,**
**24 Heol Alexandra, Abertawe. SA1 5DY.**
**Ffôn: 01792 -459988**

**Canolfan Sgrinio'r Fron - Gogledd Cymru**
**Ffordd Maes Du, Llandudno. LL30 1QZ**
**Ffôn: 01492 - 860888**

*Mae Bron-Brawf Cymru yn rhan o Raglen Sgrinio'r Fron yr NHS*

### ADRAN Y GYMRAEG

## LLÊN A BYWYD GWERIN YNG NGHAERDYDD

**CWRS LLAWN AMSER NEU RAN AMSER MEWN ASTUDIAETHAU GWERIN YN ARWAIN AT DDIPLOMA NEU RADD M.A. CYNIGIR Y CWRS GAN ADRAN Y GYMRAEG MEWN CYDWEITHREDIAD AG AMGUEDDFA WERIN CYMRU, UN O BRIF AMGUEDDFEYDD AWYR AGORED EWROP**

**I DDECHRAU MEDI 1996**

**GOFYNNIR I YMGEISWYR FEDDU AR RADD PRIFYSGOL NEU GYMHWYSTER PROFFESIYNOL CYMESUR**

***Am fanylion pellach, cysylltwch â:***
***TECWYN VAUGHAN JONES***
***ADRAN Y GYMRAEG***
***PRIFYSGOL CYMRU CAERDYDD***
***BLWCH S.P. 910***
***CAERDYDD CF1 3XW***
***FFôn: (0222) 874843.***
***E-bost: JonesTV@cf.ac.uk***

CAERDYDD

## CD-ROM

Mae Sain (Recordiau) Cyf yn awyddus i glywed oddi wrth unrhyw berson sydd yn awyddus i weithio ym maes newydd cyfansoddi CD-Rom. Buasai cefndir graffeg, dylunio, neu arlunio yn fantais. Brwdfrydedd ac egni yn hanfodol.

*Am ragor o wybodaeth ac ymholiadau, cysyllter â:*

**Mr O P Huws, Fideo Sain, Canolfan Sain, Llandwrog, Caernarfon, Gwynedd, LL54 5TG.**
**Ffôn: (01286) 831.111**

**YN EISIAU** Nani Gymraeg i ofalu am blentyn 12 mis oed yng ngogledd Llundain o fis Medi ymlaen. Tri diwrnod yr wythnos yn unig. Byw allan. Os oes gennych ddiddordeb, cysylltwch â ***Delyth Evans ar 0171 3596775 neu ar 01222 757525***

Yr Academi Gymreig

ag

Cyfres Cyfieithiadau Barddoniaeth yr Academi

I'w gyhoeddi'n fuan...

# Cerddi Osip Mandelstam

gol. Stephen Jones

'Cyfrifir Mandelstam ymhlith beirdd disgleiriaf Rwsia yn yr 20fed ganrif ... un enghraifft ydoedd o'r lleiafrif llenorion a gadwodd lamp rhyddid a gwerthoedd gorau'r traddodiad dyneiddiol ynghynn yn nannedd yr erledigaeth fwyaf erchyll..'
*Gareth Alban Davies*

Eisoes yn yr un gyfres ..
***Dail Glaswellt** - Walt Whitman*
gol. M Wynn Thomas

Am fanylion cysyllter â:
Yr Academi Gymreig, Tŷ Mount Stuart,
Sgwâr Mount Stuart, Caerdydd CF1 6DQ



## *Cymdeithas Addysg y Gweithwyr*

Gogledd a De Cymru

**W.E.A**

Cyrsiau i Oedolion

Cyrsiau **dydd** a chyrsiau **nos**, 5 i 20 wythnos, mewn gwahanol bynciau:

**Hanes, Hanes Lleol, Arlunio, Cerddoriaeth, Llenyddiaeth, Byd Natur, Cymraeg fel ail-iaith, Gloywi Iaith, Dychwelyd i Addysg a.y.b**

*Ar gael hefyd :*
**Ysgolion Un-dydd a Chyrsiau Penwythnos**


Am fwy o fanylion, cysylltwch â'ch llyfrgell leol neu â

Swyddfa'r W.E.A, 33 Ffordd-y-Coleg, Bangor, Gwynedd, LL57 2AP. Ffôn : 01248 353254

Swyddfa'r W.E.A., 10 Coopers Yard, Trade Street, Caerdydd CF1 5DQ Ffôn : 01222 235277



# Amgueddfa ac Oriel Genedlaethol Caerdydd



**Celf Grêt. Hanes Grêt.**

**Gwyddoniaeth Grêt.**

**A dydd arbennig i'r holl deulu**

***Ffôn: 01222 397951***



# CHRIS JONES

*Gŵr Camera :: Cyflwynydd*

***ar liwt ei hun***

Mae **Chris Jones**, un o gyflwynwyr y Tywydd ar S4C, yn ogystal â rhaglenni amrywiol eraill, yn troi'n gwbl *freelance* ar ôl gweithio i gwmni teledu corfforaethol Merlin am ddeng mlynedd fel gŵr camera a chynhyrchydd / gyfarwyddwr.

Y bwriad a'r gobaith yw gweithio fwy a mwy yn y Gymraeg i gynhyrchwyr rhaglenni ar gyfer S4C.

Am fanylion a gwybodaeth bellach, cysyllter â CHRIS JONES ar 01222 616999; 01222 494777, neu ar mobeil 0385 566945; ffacs 01222 493111